Cyllid &
Tollau EM

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

Annwyl gwsmer,

Rydym yn ysgrifennu atoch oherwydd bod ein cofnodion yn dangos bod eich busnes wedi cofrestru ar gyfer TAW a'ch bod yn masnachu â'r UE. Mae hyn yn golygu y bydd newidiadau'n effeithio arnoch pan fydd y DU yn gadael yr UE ar 31 Hydref 2019.

## Y camau nesaf y mae angen i chi eu cymryd er mwyn paratoi ar gyfer Brexit

Erbyn hyn, dylai fod gennych rif EORI (Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd) yn y DU sy'n dechrau gyda 'GB'. Mae hyn yn golygu y gallwch symud nwyddau i mewn i unrhyw un o wledydd yr UE ac oddi yno. Mae rhagor o bethau y gallwch eu gwneud i baratoi'ch busnes.

Bydd angen i chi benderfynu a ydych yn mynd i ddefnyddio asiant tollau i lenwi datganiadau tollau neu a ydych yn mynd i'w llenwi eich hunan.

Mae cyllid newydd ar gael gan y llywodraeth er mwyn helpu busnesau i hyfforddi staff i wneud datganiadau tollau. Mae'r cyllid hefyd ar gael er mwyn helpu busnesau sy'n rhoi cymorth i fusnesau eraill sy'n masnachu nwyddau er mwyn buddsoddi o ran TG. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, ac i wneud cais, ewch i **www.gov.uk/guidance/grants-for-businesses-that-complete-customs-declarations**

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth am fewnforio ac allforio yn y dogfennau sydd wedi'u hamgáu i'ch helpu drwy'r camau a'r penderfyniadau y mae angen i chi eu gwneud nawr.

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud nawr fel mewnforiwr

Os nad oes rhif cofrestru ar gyfer Gweithdrefnau Symlach Dros Dro (TSP) gennych yn barod, rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais am un nawr er mwyn gwneud mewnforio mor syml â phosibl ar ôl Brexit. Os nad ydych yn gyfarwydd â phrosesau tollau, dyma'r opsiwn gorau i chi.

Gwiriwch y cyfraddau tariff ar fewnforion ar ôl Brexit i weld a fydd unrhyw dollau tramor i'w talu. Bydd angen i chi wneud cais am Gyfrif Gohirio Tollau os ydych yn bwriadu defnyddio TSP i fewnforio nwyddau y bydd tollau tramor neu dollau ecséis yn daladwy arnynt. Mae hyn yn golygu y gallwch dalu tollau sy'n ddyledus ar nwyddau bob mis, yn hytrach na chyn gynted ag y bo'r nwyddau'n cyrraedd y DU.

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud nawr fel allforiwr

Gwiriwch:

- gyda'r bobl neu'r cwmni sy'n symud eich cynnyrch i weld a oes angen rhagor o wybodaeth arnynt
- fod y bobl rydych yn gwerthu nwyddau iddynt yn barod i ddod â'ch nwyddau i mewn i'w gwlad, a'u bod yn dilyn prosesau tollau'r wlad honno
- a oes angen trwydded allforio ar eich nwyddau - os ydych yn masnachu nwyddau rheoledig, mae'n bosibl y bydd tystysgrifau a phrosesau ychwanegol y bydd yn rhaid i chi eu dilyn. I gael rhestr o nwyddau rheoledig a rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am 'controlled goods'

## Penderfynwch p’un a ddylech ddefnyddio proses dollau wahanol

Mae’r Confensiwn Cludo Cyffredin yn weithdrefn dollau ryngwladol. Dylech ystyried defnyddio hwn os ydych yn allforio’n aml ac:

- rydych yn allforio nwyddau drwy sawl tiriogaeth Confensiwn Cludo Cyffredin (yr UE, Twrci, Gwlad yr Iâ, Norwy, y Swistir, Liechtenstein, Gweriniaeth Gogledd Macedonia a Serbia)
- rydych eisiau symud eich nwyddau i ffwrdd o’r ffin er mwyn cwblhau prosesau tollau mewn man arall

Os ydych yn penderfynu defnyddio’r Confensiwn Cludo Cyffredin ar gyfer allforion, dylech hefyd ystyried bod yn anfonwr awdurdodedig. Bydd hyn yn caniatáu i chi ddechrau’r allforio yn eich safle eich hunan, yn hytrach nag yn un o swyddfeydd y llywodraeth.

Ar gyfer symudiadau nwyddau dros dro, er enghraifft os ydych yn symud cyfarpar chwaraeon neu adloniant am gyfnod byr, efallai mai Trwyddedau ATA fyddai orau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am Drwyddedau ATA, ewch i **www.gov.uk/taking-goods-out-uk-temporarily**

## Y diweddaraf am Brexit

Gallwch wneud y canlynol:

- cofrestru ar gyfer ein gwasanaeth e-bost, sy’n rhad ac am ddim - ewch i **www.gov.uk/hmrc/business-support** a dewis yr opsiwn ar gyfer e-byst helpu ac addysgu busnesau, ac yna dewiswch ‘Brexit’
- defnyddio tudalen GOV.UK ar gyfer masnachwyr - ewch i **www.gov.uk/brexit-traders**

Gallwch hefyd ffonio’r llinell gymorth traws-Lywodraethol newydd ar gyfer mewnforio ac allforio ar 0300 3301 331.

Yn gywir

Jim Harra

Dirprwy Brif Weithredwr, CThEM

Wedi’i dynnu’n ôl ar 31 Ionawr 2020